cyngor ar bopeth

ofgem

# YNNI -Y FARGEN ORAU

# Ynni – Y Fargen Orau

- Mae prisiau nwy a thrydan yn cynyddu, ond mae ffyrdd o leihau cost eich biliau ynni.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y cynllun ynni gorau i chi. Os ydych chi'n cael trafferth talu'ch biliau, gallwch gael help drwy gynlluniau gan y llywodraeth neu gyflenwyr a mynd ati i sicrhau bod eich cartref yn defnyddio ynni yn fwy effeithlon.

- Gall Ynni – Y Fargen Orau eich helpu i wneud yn siŵr nad ydych chi'n talu mwy nag sydd angen.

# I arbed arian, gofynnwch i chi'ch hun (bob blwyddyn)

YNNI
-Y FARGEN ORAU

- A fyddai newid cyflenwr yn arbed arian i mi?
- Ydw i'n gymwys i gael budd-daliadau lles?
- Ydw i'n gymwys i gael grant i wneud gwaith i fy nghartref er mwyn iddo ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon?
- Ydw i ar y cynllun ynni a/neu'r opsiwn talu gorau? (yn dibynnu ar eich anghenion)

cyngor ar bopeth

ofgem

# Y wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud dewis doeth

YNNI
-Y FARGEN ORAU

- Cyfriflen flynyddol neu gopi o'ch biliau diwethaf;
- Os ydych chi'n defnyddio mesurydd cerdyn, tocyn neu allwedd, mae angen bod gennych chi syniad o faint rydych yn ei wario ar ynni bob wythnos/mis;
- Enw’r tariff rydych arno ar hyn o bryd (os nad ydych chi'n gwybod, cysylltwch â’ch cyflenwr);
- Faint ydych chi wedi’i wario ar ynni dros y flwyddyn diwethaf;
- Sut ydych chi'n talu am eich ynni ar hyn o bryd; ac
- Eich cod post.

cyngor ar bopeth

ofgem

# Sut mae dod o hyd i gynlluniau ynni gwell

- Siaradwch â’ch cyflenwr, neu edrych ar ei wefan.

- Defnyddiwch safle cymeradwy sy'n cymharu prisiau ar-lein. Mae’r safleoedd hyn wedi’u rhestru yn https://www.ofgem.gov.uk/cy/cod-hyder

- Os nad oes gennych chi fynediad at y rhyngrwyd, ffoniwch wasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth i gael taflen brisiau – 08454 04 05 06 neu ffoniwch gyflenwyr eraill yn uniongyrchol i gael gwybod beth y gallant ei gynnig i chi.

# Cyn newid

- Mae cyflenwyr yn cynnig amrywiaeth o opsiynau talu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis un sy’n addas i’ch amgylchiadau chi.

- Ni fydd pob cyflenwr yn cynnig yr un gostyngiad. Os ydych chi'n cael gostyngiad ar hyn o bryd, gwnewch yn siŵr y byddwch chi’n dal i gael y gostyngiad hwnnw.

- Os ydych chi mewn dyled i'ch cyflenwr, gofynnwch beth yw eich opsiynau.

- Efallai mai tariffiau prisiau sefydlog yw'r rhataf, ond efallai y bydd cosbau ariannol os byddwch chi'n newid cyn diwedd y cynllun/cynnig.

# Newid cyflenwr – un opsiwn

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu newid cyflenwr – mae hyn yn cynnwys pobl ar fesurydd tocyn, allwedd neu gerdyn.
- Os ydych chi'n rhentu ac mai chi sy'n gyfrifol am filiau ynni, mae gennych hawl i newid. Dim ond os yw'r landlord yn gyfrifol am dalu biliau ynni y bydd ganddo hawl i ddewis cyflenwr ynni.

Os byddwch chi'n newid:

- Nid oes perygl y bydd eich cyflenwad ynni yn cael ei ddatgysylltu.
- Ni fydd angen mesurydd newydd arnoch chi.
- Bydd y nwy a'r trydan rydych chi'n eu cael yn eich cartref yn aros yr un fath.
- Yr unig wahaniaeth fyddwch chi'n ei weld yw bod eich bil yn dod gan eich cyflenwr newydd.

# Does dim rhaid i chi newid cyflenwr, mae modd arbed arian drwy:

Opsiwn tanwydd dwbl – ond nid tanwydd dwbl yw'r opsiwn rhataf bob amser. Weithiau, mae'n gallu bod yn rhatach cael nwy a thrydan gan gyflenwyr gwahanol.

Opsiwn cyfradd sefydlog – mae hyn yn golygu na fydd pris eich ynni yn newid drwy gydol cyfnod y cynllun (cofiwch y gallech gael cosb ariannol am adael y cynllun yn gynnar). Ond mae'n dal yn bosibl y bydd eich biliau'n cynyddu os byddwch chi'n defnyddio mwy o ynni.

Cynigion ar y Rhyngrwyd – mae'r rhain yn cynnig gostyngiad i gwsmeriaid sy'n symud i ddefnyddio cyfrifon ar-lein (cofiwch y gallech gael cosb ariannol am adael y cynllun yn gynnar).

**Gallai opsiynau talu arbed arian i chi neu eich helpu i gyllidebu:**

Debyd uniongyrchol – bydd eich taliadau ynni yn cael eu tynnu o'ch cyfrif banc yn uniongyrchol.

Credyd safonol – talu'ch bil gyda siec, arian parod neu gerdyn credyd/debyd.

Mesuryddion tocyn, allwedd neu gerdyn – talu am eich ynni ymlaen llaw drwy roi arian ar gerdyn neu allwedd, neu brynu tocynnau.

# Sut mae newid eich cyflenwr

1 Cysylltwch â'r cyflenwr i gytuno ar fargen ynni newydd.

2 Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadarnhau pa fargen yr hoffech ei chael e.e. cyfradd sefydlog

3 Dywedwch wrth eich cyflenwr presennol eich bod yn symud at gyflenwr newydd.

4 Bydd contract yn cael ei anfon atoch – dylech wneud yn siŵr ei fod yn gywir a chadarnhau'r dyddiad y byddwch yn symud.

5 Gwnewch yn siŵr eich bod wedi talu holl filiau eich cyflenwr presennol.

6 Darllenwch y mesurydd ar y diwrnod rydych yn newid cyflenwr er mwyn i chi allu gwirio eich biliau.

YNNI -Y FARGEN ORAU

cyngor ar bopeth

ofgem

# Cael help gyda'ch biliau ynni

- Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr ynni yn cynnig rhyw fath o help i'w cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni.

- Os ydych chi'n cael budd-daliadau penodol gan y wladwriaeth gallech gael gostyngiad ar eich biliau, drwy'r cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes er enghraifft. Siaradwch â'ch cyflenwr i gael gwybod a ydych chi'n gymwys, a mynd i www.adviceguide.org.uk.

- Os oes arnoch chi arian i'ch cyflenwr, mae'n rhaid iddo gynnig trefniant talu sy'n ystyried eich amgylchiadau ariannol a'ch gallu i dalu. Trafodwch eich opsiynau â'ch cyflenwr.

- Mae Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes yn cynnig cyngor hefyd – ffoniwch nhw ar 0800 33 66 99.

# Help gan y Llywodraeth

**Taliadau Tanwydd Gaeaf** – taliad blynyddol i bobl hŷn i'w helpu i gadw'n gynnes yn y gaeaf. Mae'r taliadau'n amrywio rhwng £100 a £300 gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. Os nad ydych chi wedi bod yn cael y taliad hwn, ffoniwch Linell Gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf ar 08459 15 15 15 neu ewch i www.gov.uk neu www.adviceguide.org.uk.

**Taliadau tywydd oer** – bydd cartrefi cymwys sy'n profi tymheredd is na sero gradd Celsius am saith diwrnod ar ôl ei gilydd rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth yn cael £25 yn awtomatig am bob cyfnod o saith diwrnod.

# Cynllluniau lle rydych chi'n byw

**ECO (Cymru, yr Alban a Lloegr)**: gwelliannau gwresogi ac inswleiddio ar gyfer pobl sy'n byw mewn eiddo hŷn a deiliaid tai sydd ar incwm isel.

**Y Fargen Werdd (Cymru, yr Alban a Lloegr):** gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni – byddwch yn talu amdanynt drwy dalu cost ychwanegol ar ben eich bil trydan dros 25 mlynedd.

I gael mwy o wybodaeth am **ECO** a'r **Fargen Werdd,** ewch i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu ffoniwch y **Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS) ar 0300 123 1234 neu Home Energy Scotland 0808 808 2282.**

**NYTH (Cymru)** : helpu deiliaid tai yng Nghymru i leihau biliau tanwydd. Ffoniwch NYTH ar **08088 082 244.**

**Home Energy Efficiency Programme Scotland (HEEPS)**: help a chyngor ynghylch sut mae gwneud cartrefi'n gynhesach. Ffoniwch **Home Energy Scotland** ar **0808 808 2282**.

# Datblygiadau yn y sector ynni

YNNI -Y FARGEN ORAU

Erbyn hyn mae'n rhaid i gyflenwyr wneud y canlynol:

- Darparu gwybodaeth well ar filiau, a chyfriflen flynyddol.
- Gadael i gwsmeriaid gyda mesurydd cerdyn, tocyn neu allwedd symud at gyflenwr arall hyd yn oed os oes ganddynt hyd at £500 o ddyled ar bob tanwydd.
- Peidio â chodi mwy arnoch chi am un dull o dalu nag un arall, oni bai y gallant gyfiawnhau hynny ar sail y gost.
- Sicrhau bod eu gwerthwyr ar garreg y drws yn gallu rhoi amcangyfrifon ysgrifenedig a deunyddiau darllen ynghylch gwerthu i chi sy'n eglur, yn gywir ac yn hawdd eu deall.
- Yn 2014, bydd nifer y tariffiau yn cael eu cyfyngu, a bydd mwy o newidiadau'n cael eu cyflwyno er mwyn ei gwneud yn haws i chi gael cynllun da.

cyngor ar bopeth

ofgem

# Lleihau'ch biliau ynni drwy sicrhau bod eich cartref yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon

- Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod cyflenwyr ynni yn cynnig eich helpu i wneud hyn.

- Felly cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i weld pa help sydd ar gael. Gallai help gynnwys inswleiddio am ddim.

- Gall yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni gynnig cyngor ar effeithlonrwydd ynni – ffoniwch 0300 123 1234, neu Home Energy Scotland ar 0808 808 2282.

Cefnogir ymgyrch
Ynni – Y Fargen Orau 2013/14
gan:

- Nwy Prydain
- EDF Energy
- First Utility
- ScottishPower
- SSE

# YNNI -Y FARGEN ORAU

cyngor ar bopeth

ofgem